


# Ciliau/Wdig

## Teithiau Byr



**GRADDFA:** 0 300 600 m

**PELLTER/HYD:** 3.0 milltir (4.9 km) 1 awr 30 munud

**CLUDIANT CYHOEDDUS:** Bws gwasanaeth Sgwâr Wdig 413, 410 (Gwasanaeth Tref Abergwaun),  
\*Strumble Shuttle 404 (\*tymhorol, galw a teithio), Terfynfa'r rheilffordd ym mhorthladd y Fferi

**CYMERIAD:** Arfordirol, ychydig o'r daith ar hyd ymyl clogwyni, rhostir, caeau a da byw, cerdded gweddol hwylus, gall fod yn wlyb ac yn gorsiog iawn ar Rhostir Ciliau

**CHWILIWCH AM:** Tair siambr gladdu Neolithig • golygfeydd gwych o Ben Dinas a'r arfordir  
• Fferi a chatamarán Stena

### ALLWEDD

- ● ● ● Llywbr Cylch
- — — — Llywbr Arfordir Sir Benfro  
Llywbr Cenedlaethol
- - - - Llywbrau Cyhoeddus
- P** Maes Parcio
- WC** Toiledau Cyhoeddus (Wdig)
- Safle Bws
- Gorsaf Rheilffordd

### CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llywbr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu



# Ciliau/Wdig

## Teithiau Byr

**Hyd:** 1 awr 30 munud

**Pellter:** 3.0 milltir (4.9 km)

**Cludiant cyhoeddus:** Bws gwasanaeth Sgwâr Wdig 413, 410 (Gwasanaeth Tref Abergwaun), \*Strumble Shuttle 404 (\*tymhorol, galw a teithio), Terfynfa'r rheilffordd ym mhorthladd y Fferi .

**Cyfeirnod map:** SM948392

Mae Harbwr Abergwaun wrth ymyl aber yr Afon Gwaun, sy'n codi ym Mynyddoedd y Preseli ac yn llifo trwy Ddyffryn prydferth, serth Gwaun at y môr yn Abergwaun.

Mae Wdig, sy'n rhannu'r bae gydag Abergwaun, yn un o nifer o gymunedau yn Sir Benfro sydd ag enw Llychlynnaid, atgof o'r adeg pan yr oedd ysbeilwyr a masnachwyr Llychlynnaid yn hwylio mewn dyfroedd lleol.

Uwchlaw Wdig mae'r pentir yn frith o olion gweithgarwch cenedlaethau llawer cynt, gan gynnwys cerrig sefyll a siambrau claddu. Mae'r un mwyaf diddorol, Garnwnda, ychydig oddi ar y llwybr hwn.

Gyda dyfodiad y rheilffordd i Wdig yn 1906 gwelwyd newidiadau sylweddol i'r hyn a arferai fod yn gymuned bysgota fach. Am ychydig o flynyddoedd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf roedd cychod teithwyr yn galw yn harbwr newydd Wdig ond buan y daeth y diwrnodau hynny i ben yn sgil y rhyfel. Wrth gwrs, mae Wdig yn dal i fod yn borthladd ar gyfer y cychod fferi i Iwerddon.

Uwchlaw Wdig mae'r rhostir arfordirol yn cael ei bori unwaith eto i wella'r cynefin ar gyfer bywyd gwyllt. Mae gwartheg a merlod yn bwyta

planhigion mawr fel rhedyn er mwyn i'r blodau llai ffynnu unwaith eto.

Ar y pentir garw hwn y cymerodd yr ymosodiad olaf ar Brydain le, yn 1797. Ychydig i'r gorllewin o'r llwybr hwn mae yna biler i goffau'r glaniad gan fyddin Ffrengig fach. Gan fwyaf, cyn-droseddwyr oedd y dynion a anfonwyd i oresgyn Cymru ac Americanwr, nid Ffrancwr, Colonel Tate, oedd yn eu harwain. Wedi glanio, fe aeth mintai Tate o 1,500 o ddynion ati i ysbeilio ffermydd ac mae'n ymddangos eu bod nhw'n poeni fwy am feddwi nag atgyfnerthu eu safle.

Mae'r hyn a ddigwyddodd nesaf wedi bod yn destun chwedlau. Dywedir eu bod wedi colli'r chwant i ymladd ar ôl meddwl mai grym o gotiau coch oedd grŵp o fenywod lleol yn y pellter - wrth gwrs, roedd y menywod yn gwisgo dillad coch traddodiadol a hetiau tal, du. Ildiodd y meddianwyr ar Draeth Wdig.